------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 14 Ionawr 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(239)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau**
**NDM5666 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jocelyn Davies (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Alun Ffred Jones (Plaid Cymru).

**3 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyflogau Uwch-reolwyr (60 munud)**
**NDM5664 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyflog Uwch Reolwyr, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2014.

Sylwer: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ionawr 2015.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Ymateb Llywodraeth Cymru

**4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**
**NNDM5630**
**Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**
**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**
**Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**

Cynnig bod Cynlliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi:
a) bod menywod wedi gwneud cyfraniad enfawr i fywyd gwaith Cymru ac yn parhau i fod yn rhan hanfodol o economi Cymru;

b) ei bod bron i 100 mlynedd ers i fenywod gael y bleidlais a bron i 40 mlynedd ers y Ddeddf Cyflog Cyfartal;

c) bod gan Lywodraeth Cymru ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau nad oes gwahaniaethu sefydliadol yn digwydd yn y gweithle.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â dyfarnu contractau caffael neu arian grant Llywodraeth Cymru i gwmnïau nad oes ganddynt unrhyw gyfarwyddwyr benywaidd ar

eu byrddau.

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5665 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhyddhad ardrethi busnesau bach tan fis Mawrth 2015;

b) bod Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi yn natganiad yr Hydref ar 3 Rhagfyr 2014 y bydd gan Lywodraeth Cymru reolaeth lawn dros ardrethi busnes ym mis Mawrth 2015.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn cymorth ardrethi busnes i fusnesau bach.

3. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng sefydliadau addysg uwch a'r gymuned fusnes i greu economi fwy dynamig.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

y gall prifysgolion chwarae rhan hanfodol yn y broses o greu busnesau newydd gwerth uchel, er enghraifft drwy ychwanegu 261 o gwmnïau deilliedig newydd at economi Cymru yn 2012/13.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

mai Caerdydd yw'r unig ddinas yng Nghymru sydd ymhlith yr 20 o ddinasoedd gorau yn y DU ar gyfer dechrau busnesau newydd.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu opsiynau i sicrhau bod prisiadau ardrethi busnes yn olrhain y farchnad yn fwy cywir ac yn lliniaru ar gynnydd mawr mewn biliau ardrethi yn y dyfodol.

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adnewyddu'r cynllun cyfredol ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach am flwyddyn arall.

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn y meini prawf cymhwyster ar gyfer y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach o fis Ebrill 2015 ymlaen i gyrraedd pob busnes sydd â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai.

**Gwelliant 6. - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu olynydd i'r cynllun POWIS i annog gweithio mewn partneriaeth a datblygu cwmnïau deillio yn sefydliadau addysg uwch Cymru.

**6 Cyfnod Pleidleisio**

**7 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5663 Lynne Neagle (Torfaen)**

Pris glo - effaith glo brig yn Farteg a'r goblygiadau i gymunedau y tu hwnt i'r ardal

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 20 Ionawr 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 7 Ionawr 2015 i'w hateb ar 14 Ionawr 2015

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.
(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gefnogaeth sydd ar gael i helpu i ddiogelu lles athrawon yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0509(ESK)

2. **Gwyn Price (Islwyn)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i hyrwyddo dysgu fel gyrfa? OAQ(4)0516(ESK)

3. **William Graham (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cydlynu'r ddarpariaeth o addysg feddygol? OAQ(4)0519(ESK)

4. **Gwenda Thomas (Castell-nedd)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion i wella presenoldeb mewn ysgolion cynradd? OAQ(4)0521(ESK)

5. **Lynne Neagle (Torfaen)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i gyflwyno darpariaeth deg o addysg ôl-16 yn Nhorfaen? OAQ(4)0517(ESK)

6. **Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o wasanaethau addysg cerdd yng Nghymru? OAQ(4)0510(ESK)

7. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau i wella canlyniadau addysgol yn 2015 ar gyfer disgyblion yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0518(ESK)

8. **Leanne Wood (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd dysgu technoleg gwybodaeth mewn ysgolion? OAQ(4)0515(ESK)

9. **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu Llwybrau Dysgu 14-19 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? OAQ(4)0512(ESK)**W**

10. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid i ysgolion yng Nghymru? OAQ(4)0523(ESK)

**11. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddalgylchoedd ysgolion? OAQ(4)0511(ESK)**W**

**12. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'r system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion yn gweithredu yn ymarferol? OAQ(4)0524(ESK)

**13. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod 2015? OAQ(4)0514(ESK)

**14. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella addysg yn Sir Benfro? OAQ(4)0506(ESK)

**15. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran yr ymgynghoriadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn yr adran addysg? OAQ(4)0508(ESK)

## Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i Gasnewydd ar gyfer twf busnesau yng nghanol y ddinas yn ystod y blynyddoedd diwethaf? OAQ(4)0513(EST)

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynigion sydd dan sylw gan y Gweinidog ar gyfer cyfnod rheoli chwech o fuddsoddiad Network Rail ym masnachfraint Cymru a'r Gororau? OAQ(4)0500(EST)**W**

**3. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd tuag at y gwaith o gyflawni ffordd osgoi A483/A489 ger y Drenewydd? OAQ(4)0501(EST)

**4. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y terfyn yfed a gyrru cyfredol yng Nghymru? OAQ(4)0509(EST)

**5. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gysylltiadau trafnidiaeth rhwng gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr? OAQ(4)0496(EST)

**6. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ryddfreinio llwybrau rheilffordd Cymru a'r Gororau? OAQ(4)0510(EST)

**7. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith ynni rhatach ar ddiwydiant yng Nghymru? OAQ(4)0507(EST)

**8. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen cynnal a chadw a gwella ar gyfer cefnffyrdd? OAQ(4)0495(EST)

**9. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth fydd effaith debygol y fframwaith rhagoriaeth ymchwil a gyhoeddwyd fis diwethaf  ar bolisi gwyddoniaeth yng Nghymru? OAQ(4)0505(EST)

**10. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y diwygiad diweddar o'r cynllun parcio bathodyn glas yng Nghymru? OAQ(4)0502(EST)

**11. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd mentrau cymdeithasol i economi Cymru? OAQ(4)0506(EST)

**12. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol llyfrgelloedd yng Nghymru? OAQ(4)0512(EST)**W**

**13. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol llyfrgelloedd lleol yng Nghymru? OAQ(4)0497(EST)**W**

**14. William Graham (Dwyrain De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r manteision economaidd i Gymru sy'n deillio o ddatblygiad Heathrow Hub? OAQ(4)0511(EST)

**15. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddiwygio ardrethi busnes yng Nghymru yn 2015? OAQ(4)0498(EST)